



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales



## **Adroddiad ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Bro Morgannwg**

**Swyddfeydd Dinesig  
Heol Holton  
Y Barri  
CF63 4RU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad,  
gallai'r adroddiad hwn fod ychydig yn wahanol mewn fformat i adroddiadau  
cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn â Chyngor Bro Morgannwg

Mae cyfanswm o 23,288 o ddisgyblion ar draws 53 ysgol ym Mro Morgannwg. Mae 44 o ysgolion cynradd, dwy ysgol bob oed, chwech ysgol uwchradd, ac un ysgol arbennig. Mae saith o'r rhain yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg.

Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 17% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 23%.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol ym mis Mai 2013, ac ymweliadau monitro ym mis Hydref 2014 a mis Tachwedd 2015.

Yn 2023-2024, cyllideb addysg yr awdurdod lleol yw £162,165,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2023-2024 yw £5,405, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £5,386.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd y gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg wedi'i nodi isod:

- Mae 12.9% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 14.3%.
- Mae gan 4.2% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol).
- Mae gan 2.8% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).
- Mae gan 1.8% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (â Datganiad).
- Mae gan 4.6% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol).
- Mae 2.7% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Mae 11.9% o ddisgyblion sy'n 5 oed neu'n hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 14.6%.

Cynhaliom arolygiad ar wahân o'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid ym Mro Morgannwg ychydig o wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL). Lle bo'n berthnasol, mae'r canfyddiadau a'r gwerthusiadau o'r arolygiad gwaith ieuenctid wedi llywio gwaith y tîm arolygu GALIL.

## Crynodeb

Mae'r weledigaeth i greu 'cymunedau cryf gyda dyfodol disglair' yn sail i'r holl benderfyniadau a wna arweinwyr a swyddogion yng Nghyngor Bro Morgannwg, i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu teilwra i ddiwallu anghenion cymunedau unigol. Mae'r arweinydd, y prif weithredwr, yr aelod cabinet dros addysg, aelodau etholedig a staff yn gosod disgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain ac ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Mae swyddogion yn cyflawni eu rolau'n ddiwyd ac wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn Y Fro yn elwa ar addysg a chymorth o ansawdd uchel. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd sydd ganddynt â'r rhan fwyaf o swyddogion ac maent yn aelodau balch o gymuned Y Fro.

At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol a Gwasanaeth Addysg Ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ystyried perfformiad eu hysgolion. Mae swyddogion yn gwneud defnydd buddiol o'r wybodaeth hon am les a deilliannau disgyblion. Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o lawer o agweddau ar waith ei ysgolion, er enghraifft presenoldeb a darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'n adnabod y rheiny y mae'n eu monitro'n agosach yn arbennig o dda. Fodd bynnag, nid oes ganddynt oruchwyliaeth ddigon clir o ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion yn eu dysgu ym mhob ysgol. Mae hyn yn lleihau eu gallu i dargedu eu hadnoddau ar gyfer gwella ysgolion. Nid yw'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod CCD yn darparu gwybodaeth fuddiol am yr agweddau hyn ar gyfer pob ysgol yn gyson.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth cryf i'w ysgolion o ran cynorthwyo disgyblion ag ADY ac mae swyddogion wedi gweithio'n dda i gynllunio'n strategol a chyflwyno cymorth i ysgolion baratoi ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Yn ychwanegol, mae cymorth i ysgolion wella presenoldeb disgyblion yn effeithiol, ar y cyfan. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ystod eang o ddata ac yn gweithio'n agos gydag ysgolion a theuluoedd, ac mae presenoldeb yn gwella.

Mae aelodau, uwch arweinwyr a swyddogion wedi ymrwymo i leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc, ac mae gwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio'n fanwl ar wella lles, cefnogi teuluoedd a mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd. Megis dechrau datblygu y mae gwaith i wella dysgu, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion sy'n byw ar aelwydydd incwm isel. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gyda phobl ifanc ac yn sicrhau bod nifer y bobl ifanc nad ydynt yn aros mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn isel. Mae'r gwaith hwn yn gryfder arbennig.

Ceir systemau sefydledig ar gyfer gwerthuso a gwella sy'n helpu'r awdurdod lleol i gael trosolwg o gynnydd o ran eu cryfderau trosfwaol a'u meysydd i'w datblygu. Nid yw gwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon manwl gywir yn gyson. Mae hyn yn golygu nad yw llwyddiant bob amser yn cael ei nodi'n ddigon clir ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i ddwyn swyddogion i gyfrif am sicrhau gwelliannau.

Mae gweithio ar draws cyfarwyddiaethau yn gryfder nodedig yng ngwaith yr awdurdod lleol. Mae'r uchelgeisiau ar y cyd a'r cynllunio ar draws cyfarwyddiaethau wedi sicrhau gweithio effeithiol ar draws yr holl gyfarwyddiaethau sydd wedi cefnogi

gwasanaethau addysg yn dda. Mae hyn wedi helpu'r awdurdod lleol i flaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg a gwaith ar y cyd, er enghraifft gydag adnoddau a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cymorth cyflawn ar gyfer ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

## Argymhellion

- A1 Miniogi ffocws prosesau gwerthuso a gwella
- A2 Gwella ansawdd gwybodaeth a'r defnydd a wneir o wybodaeth am ddysgu ac addysgu mewn ysgolion i alluogi'r awdurdod lleol i gyfeirio'i adnoddau tuag at feysydd i'w gwella yn y ffordd orau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddarau ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddarau ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith o ran effaith gweithio ar draws cyfarwyddiaethau ar wasanaethau addysg, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Gwasanaethau addysg

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

### Pa mor effeithiol yw prosesau gwella ysgolion wrth wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu?

Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i ddatblygu diwylliant ar y cyd ar gyfer gwella gyda'i arweinwyr ysgolion. Mae arweinwyr ysgolion yn falch o weithio ym Mro Morgannwg. Ceir perthnasoedd proffesiynol cryf rhwng y rhan fwyaf o swyddogion a phenaethiaid. Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi cymorth yr awdurdod lleol i wella, yn ogystal â'u hanogaeth i archwilio gwahanol ddulliau i weithio gydag ysgolion ei gilydd, a dysgu oddi wrthynt. Mae ffocws cryf ar sicrhau bod cyfleoedd i arweinwyr ysgolion ar bob lefel gymryd rhan mewn rhaglenni rhanbarthol i ddatblygu arweinyddiaeth, a chyfrannu atynt. Mae penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro yn cael cymorth gwerthfawr trwy set deilwredig o hyfforddiant a mentora ymsefydlu

gan gydweithwyr mwy profiadol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cymorth i lywodraethwyr yn effeithiol a cheir lefelau uchel o ymgysylltu. Mae hyn oll yn helpu meithrin capasiti arweinyddiaeth ar draws ysgolion yr awdurdod.

Mae'r awdurdod yn meddu ar ddealltwriaeth gref o lawer o agweddau ar waith a pherfformiad ei ysgolion. Dros gyfnod, mae wedi darparu her a chymorth cymesur i helpu sicrhau gwelliannau i les a deilliannau disgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion. Yn gyffredinol, roedd safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn y tair blynedd cyn y pandemig uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol, er bod deilliannau ar gyfer ychydig o ysgolion uwchradd yn amrywiol yn ystod y cyfnod hwn. Yn ystod yr un cyfnod, roedd deilliannau ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol, ar y cyfan.

Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom 18 ysgol gynradd, un ysgol bob oed, dwy ysgol uwchradd ac un uned cyfeirio disgyblion. Roedd deilliannau'r arolygiadau hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau cenedlaethol yn ystod yr un cyfnod, ar y cyfan.

Mae gan yr awdurdod lleol fecanweithiau defnyddiol ar gyfer dwyn ynghyd y wybodaeth a goladwyd gan y gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion am bob un o'i ysgolion, a data cyfoethog sydd wedi'i gofnodi ar draws ystod eang o feysydd gwasanaeth. Mae uwch arweinwyr, swyddogion a phartneriaid gwella yn craffu ar y wybodaeth hon yng nghyfarfodydd tymhorol y 'Bwrdd Lles a Gwella'. Mae hyn yn helpu amlygu ble mae arfer effeithiol y gellir ei rhannu'n ehangach ar draws ysgolion yr awdurdod ac yn cefnogi nodi materion sy'n dod i'r amlwg mewn ysgolion unigol, fel pryderon am arweinyddiaeth. Er bod y fforwm gwerthfawr hwn yn cael ei ddefnyddio i gytuno ar ba gymorth ac ymyrraeth sydd eu hangen, nid yw camau gweithredu, cyfrifoldebau a graddfeydd amser yn cael eu cofnodi bob amser. Mae hyn yn golygu nad oes gan uwch arweinwyr bob amser ddarlun digon clir o b'un a yw camau wedi cael eu cymryd neu a yw ysgolion wedi gwneud y gwelliannau dymunol.

Ers aildechrau cynnal arolygiadau ym mis Chwefror 2022, rydym wedi arolygu 15 ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd. Gofynnem i ddwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd ddarparu astudiaethau achos arfer dda. Rhoddwyd un ysgol gynradd yn y categori Adolygu gan Estyn. Yn ychwanegol, barnwyd bod angen mesurau arbennig ar un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd.

Mae swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth agos ag arweinwyr ysgolion, partneriaid gwella a chydweithwyr eraill yn CCD i ddarparu rhaglenni teilwredig ar gyfer yr ysgolion prin hynny y maent yn nodi bod angen cymorth ehangach arnynt. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i adolygu cynnydd ar gyfer yr ysgolion hyn lle ceir trafodaeth ffocysedig a her drylwyr am gyflymdra'u gwelliant. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd priodol o'i bwerau statudol, fel cyflwyno hysbysiadau rhybudd, i atal diffygion pwysig mewn ysgolion rhag dwysáu, neu i ddarparu llywodraethu ychwanegol pan nad yw ysgolion yn mynd i'r afael â materion perfformiad brys yn ddigon cyflym. Mae systemau yn ymwneud ag ysgolion sy'n peri pryder mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn yn gadarn, ac yn arwain at welliant amserol yn y rhan fwyaf o achosion.

At ei gilydd, mae'r awdurdod lleol a CCD yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus. Ceir perthnasoedd cryf rhwng uwch arweinwyr ar draws y sefydliadau, lle mae trafod

a chyfaddawdu yn nodweddu eu trafodaethau proffesiynol. Mae'r ymagwedd gydwethredol hon wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i brosesau, fel defnydd mwy hyblyg o 'ddatganiad gweithredu', sy'n amlinellu cynllun strwythuredig ar y cyd i fynd i'r afael â meysydd dybryd i'w gwella mewn ysgol. Mae hyn wedi bod o fudd i ysgolion Y Fro.

Mae gan y Prif Bartner Gwella (PBG) rôl bwysig mewn cefnogi cyfathrebu llwyddiannus rhwng Bro Morgannwg a'r gwasanaeth gwella ysgolion. Mae hyn wedi cyfrannu at rannu gwybodaeth yn fwy effeithlon ac amserol gan y naill a'r llall. Mae'r PBG yn sicrhau bod partneriaid gwella'n meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau strategol yr awdurdod i lywio'u gwaith mewn ysgolion, fel ymagweddau at gefnogi lles grwpiau o ddisgyblion. Cryfder sy'n dod i'r amlwg yw'r ymweliadau ar y cyd ag ysgolion rhwng partneriaid a swyddogion gwella. Mae hyn yn helpu darparu ymagwedd fwy gwybodus a chydlynus at gynorthwyo ysgolion i gynllunio ar gyfer gwelliant cynaliadwy, yn enwedig wrth fynd i'r afael â materion fel presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion.

Dros gyfnod, mae uwch arweinwyr wedi darparu her briodol am effeithiolrwydd gwaith partneriaid gwella ac ansawdd eu hadroddiadau. Mae hyn wedi arwain at welliannau pwysig yn ansawdd y gwerthuso am ysgolion sy'n peri pryder. Mae swyddogion wedi nodi bod angen gwella'r ffordd y maent yn monitro effaith y dysgu proffesiynol a ddarperir i ysgolion i sicrhau bod hyn yn gwneud gwahaniaeth i ddysgu a chynnydd disgyblion. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr awdurdod lleol ddarlun digon clir o ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion yn eu dysgu ym mhob ysgol, gan gynnwys cynnydd disgyblion bregus. Nid yw wedi sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn darparu gwybodaeth berthnasol ar lefel ysgol yn gyson am y meysydd pwysig hyn. Mae hyn yn cynnwys pa mor dda y mae disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a medrau Cymraeg, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r awdurdod lleol wybod sut orau i gyfeirio'i adnoddau i feithrin capasiti ar gyfer gwella ysgolion unigol.

### **Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'n strategol i gynorthwyo disgyblion ag ADY?**

Mae ymagwedd strategol uwch arweinwyr yr awdurdod lleol at roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith wedi bod yn effeithiol. Mae gofynion y Ddeddf wedi cael eu cyfleu'n eglur i'r holl randdeiliaid. Ceir gweledigaeth glir i sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus a bod yr awdurdod lleol mewn sefyllfa gref i gyflwyno pob agwedd ar y diwygio.

Mae arweinwyr wedi cynyddu capasiti darpariaeth adnoddau arbenigol, gan gynnwys mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion ar sail ystod eang o wybodaeth bwrpasol. Er mwyn ymateb i'r cynnydd nodedig yn nifer y Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU), cyflwynodd yr awdurdod lleol rôl swyddogion CDU ADY ac mae hyn wedi bod yn annatod i lwyddiant proses y CDU ac yn un o gryfderau'r awdurdod lleol. Mae'r swyddogion hyn yn hynod fedrus a gwybodus ac yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ysgolion. Mae swyddogion wedi adolygu prosesau'r awdurdod lleol ac wedi gwella systemau yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys alinio prosesau atgyfeirio a phanel ysgolion yn effeithiol i reoli ceisiadau gan ysgolion am gymorth neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY). Mae hyn wedi

helpu'r awdurdod lleol i wneud penderfyniadau mewn modd amserol gyda phrosesau sicrhau ansawdd effeithiol wedi'u gwreiddio yn ymarferol.

### **Cameo: Hyrwyddwyr CDU ar sail clwstwr**

Mae hyrwyddwyr CDU yn ymarferwyr mewn ysgolion sydd wedi'u harfogi ag ystod o fedrau i ddarparu cymorth buddiol i ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu'r rôl hon yn llwyddiannus ar draws yr holl glystyrau ysgolion trwy ddarparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel.

Mae hyrwyddwyr CDU yn darparu cyngor ac arweiniad ac yn rhannu arfer effeithiol i ddatblygu a chynnal CDUau o ansawdd uchel mewn ysgolion ac maent yn rhan annatod o'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer CDUau ysgolion. Mae hyn wedi helpu cryfhau dealltwriaeth ysgolion o bwysigrwydd y dogfennau statudol ac effaith CDUau i gefnogi cynnydd disgyblion.

Trwy gydweithio â hyrwyddwyr CDU a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY), mae swyddogion yn cydnabod bod angen mireinio'r broses CDU i leihau biwrocratiaeth ddiangen.

Mae swyddogion yn grymuso arweinwyr ysgolion i sicrhau a gyrru ymagwedd ysgol gyfan at gynorthwyo disgyblion ag ADY. Er enghraifft, nododd yr awdurdod lleol, mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion, fod angen cefnogi nifer gynyddol y disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl cymhleth. Dechreuodd gwaith yn 2019 a chafodd ei gefnogi ymhellach trwy gyflwyno'u 'Hymagwedd Ysgol Gyfan at les emosiynol a meddyliol'. Mae swyddogion yn cydweithio ag ystod o bartneriaid i ymgorffori'r ymagwedd hon yn llwyddiannus fel rhan o arfer ysgol gyfan. Mae hyn wedi helpu arweinwyr ysgolion i ystyried sut gallant sicrhau gwelliannau yn eu harlwy cwricwlwm, wedi'u hategu gan elfennau o ddatblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol iach.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau'r gwasanaeth ymgysylltu, sy'n darparu cymorth gwerthfawr i ysgolion. Mae'r ymagwedd hon yn alinio'n agos â gweledigaeth yr awdurdod lleol ar gyfer ADY, sy'n canolbwyntio ar feithrin capasiti staff prif ffrwd i ddatblygu diwylliant cynhwysol mewn ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno offeryn hunanwerthuso buddiol ar gyfer ADY ym mhob ysgol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth bwysig i arweinwyr ysgolion a Chydlynwyr ADY ac yn dechrau helpu ysgolion i fod yn gynyddol fyfyrionol a gwerthusol yn eu harferion ADY.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth a dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer staff ysgolion, ac yn enwedig Cydlynwyr ADY. Maent yn cyflwyno digwyddiadau clwstwr bob hanner tymor, ac yn ystod y rhain, mae Cydlynwyr ADY yn rhannu arfer effeithiol, yn ystyried effaith eu gwaith ac yn cyd-greu sesiynau hyfforddi a datblygu â swyddogion. Er enghraifft, mae Cydlynwyr ADY a swyddogion yn datblygu arweiniad ar ddarpariaeth ddysgu gyffredinol ac ychwanegol yn dda. Mae hyn yn cynorthwyo Cydlynwyr ADY i fod yn ymarferwyr myfyriol.

Mae'r Bwrdd Gwella Lles (BGLI) yn darparu plattform defnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth ar draws meysydd gwasanaeth. Caiff ei gynnull a'i reoli gan yr awdurdod lleol mewn partneriaeth â CCD. Cynrychiolir ystod o feysydd gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth eang i gefnogi a herio gweithgareddau a chamau gweithredu mewn ysgolion. Mae hyn yn cryfhau prosesau sicrhau ansawdd darpariaeth ADY yn dda.

Yn gyffredinol, mae swyddogion yn meddu ar ddealltwriaeth addas o feysydd i'w gwella, sy'n cael eu cofnodi yng nghynlluniau'r tîm. Maent yn mireinio lefel yr her a roddant i ysgolion i gynyddu'r ffocws ar wella addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion ag ADY.

### **Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo ysgolion i wella presenoldeb?**

Mae gan yr awdurdod lleol ffocws cryf ar wella presenoldeb ysgol. Adlewyrchir y ffocws hwn yng ngweledigaeth gorfforaethol y Cyngor, ac fe gaiff ei gynnwys o fewn cynllun cyflawni blynyddol y Cyngor, ac o fewn cynlluniau penodol y gyfarwyddiaeth dysgu a medrau, yn ogystal. Mae'r cydlynu hwn yn helpu arweinwyr i gael dealltwriaeth glir o sut dylent ganolbwyntio'u gwaith i wella presenoldeb, ac maent yn cyfleu hyn yn effeithiol i ysgolion a rhanddeiliaid eraill ar draws yr awdurdod lleol.

Mae perthnasoedd cryf ag ysgolion yn helpu swyddogion i gefnogi a herio ysgolion yn dda i wella'u cyfraddau presenoldeb, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Caiff y data presenoldeb a gwaharddiadau ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion ei gasglu'n rheolaidd ac mae'r tîm yn ymweld ag ysgolion yn aml i fonitro a nodi disgyblion sydd angen cymorth. Mae swyddogion yn gweithio'n fedrus gydag ysgolion i addasu cymorth i anghenion unigol.

Rhwng 2017 a 2019, roedd presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol, ar y cyfan. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn nodweddiadol gadarnhaol, ac roedd bron pob un o'r ysgolion yn cyd-fynd â chyfartaleddau cenedlaethol, neu'n uwch. Rhwng 2022 a 2023, roedd cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol, er bod presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Er mis Medi 2023, mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella. Er bod cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn parhau i fod yn isel, ar y cyfan, mae nifer y gwaharddiadau'n rhy uchel mewn ychydig iawn o ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol a'r ysgolion yn olrhain a monitro presenoldeb myfyrwyr yn fanwl. Maent yn dadansoddi data yn dda i nodi angen ac yn rhoi cymorth gwerthfawr ac amserol i bobl ifanc a'u teuluoedd. Mae olrhain data mewn modd cynhwysfawr yn sicrhau bod y tîm cynhwysiant yn meddu ar ddealltwriaeth glir o dueddiadau mewn presenoldeb ar draws yr holl ysgolion, ac effaith eu cymorth ar bresenoldeb ysgol dros gyfnod. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion i ddeall yr heriau a'r rhwystrau rhag cyflawni presenoldeb da ac mae'n ymatebol i anghenion ysgolion a chymunedau.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i gynyddu disgwyliadau'n ymwneud â phresenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cynnwys gosod targedau heriol gydag ysgolion, ac ymateb yn gyflym i godi'r targedau hyn wrth i ysgolion eu cyflawni. Mae rhannu data presenoldeb yn effeithiol rhwng ysgolion yn



cynyddu'r her i wella'u presenoldeb ymhellach, gan ystyried cyd-destunau tebyg. Yn ychwanegol, mae hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr wedi helpu codi lefel yr her y maent yn ei darparu i arweinwyr ysgolion.

Mae cymorth ar gyfer ysgolion o ran gwella presenoldeb yn cwmpasu cyfoeth o strategaethau cyffredinol, targedig a phwrpasol. Caiff y strategaethau gwerthfawr hyn eu teilwra'n ofalus i gyd-destun a heriau penodol pob ysgol. Mae ysgolion yn elwa ar ddatblygu digwyddiadau ymgysylltu â theuluoedd, darparu dysgu proffesiynol targedig, sesiynau gweithdy ar gyfer rhieni, a thiwtora y tu allan i'r ysgol, i helpu disgyblion ailymgysylltu â dysgu. Yn yr un modd, mae ymgyrch 'Colli'r Ysgol Colli Allan' ('Miss School Miss Out'), a ddatblygwyd gyda disgyblion ac sy'n cael ei hyrwyddo'n eang, yn ymgysylltu â disgyblion a'u teuluoedd i ddeall sut byddant ar eu hennill o fyngu'r ysgol.

Mae'r pecyn cymorth o ansawdd uchel a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag ysgolion i'w cynorthwyo i gynyddu cyfraddau presenoldeb yn cael ei werthfawrogi gan randdeiliaid ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Yn ychwanegol, mae graddiad strwythuredig y lefelau cymorth ar gyfer gwella presenoldeb yn glir, ac mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi effeithiolrwydd y system brysbennu ar gyfer atgyfeirio disgyblion a theuluoedd i gael cymorth ychwanegol. Pan na fydd atgyfeiriadau'n bodloni'r trothwy angenrheidiol, mae ysgolion yn gwerthfawrogi eu bod yn parhau i dderbyn cyngor a chymorth gwerthfawr yn y tymor byr. Mae gan yr awdurdod lleol brosesau clir ar gyfer monitro'r defnydd o gynlluniau cymorth bugeiliol mewn ysgolion. Mae'r prosesau hyn yn drylwyr ac yn sicrhau nad yw disgyblion yn aros ar y cynlluniau hyn am gyfnodau maith.

Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaid yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gyfnewid arferion gorau a strategaethau ymchwilio sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb. Mae ysgolion yn yr awdurdod lleol yn elwa ar ddysgu am arfer effeithiol i helpu gwella'u cyfraddau presenoldeb. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnal partneriaethau cryf â sefydliadau allanol ac yn gweithio'n agos â'i wasanaeth ieuenctid i ddarparu cymorth ar gyfer disgyblion sydd wedi'i anelu at wella'u presenoldeb. Mae ymdrechion i gael disgyblion i ailymgysylltu â'u haddysg trwy ddsbarthiadau ychwanegol a phrofiadau y tu allan i leoliadau addysgol, er enghraifft, yn cael effaith gadarnhaol.

### **Pa mor effeithiol yw'r awdurdod o ran lleihau effaith tlodi ar ddeilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc?**

Mae gan yr awdurdod lleol ymrwymiad moesol cryf i liniaru effeithiau tlodi ar les plant a phobl ifanc ac yn cydnabod bod hwn yn gam pwysig wrth wella deilliannau addysgol. Mae dealltwriaeth ar y cyd gan swyddogion o ddiben eu gwaith, ac mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi, yn ganolog i'r ymrwymiad hwn.

Mae gwasanaethau wedi'u targedu'n dda i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella'u hiechyd a'u lles a'u helpu i symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o ddata a deallusrwydd ac mae'n meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion ei gymunedau amrywiol. Mae swyddogion yn ymatebol i'r heriau sy'n dod yn sgil tlodi. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda chlwstwr Llanilltud Fawr i ymateb i heriau sy'n deillio o'r newidiadau demograffig yng nghymunedau'r ysgolion.

Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd gref yng ngwaith yr awdurdod lleol. Mae'r ymateb i fynd i'r afael ag effaith tlodi yn amlweddol, ac yn elwa ar arbenigedd ystod o wasanaethau oddi mewn i'r gyfarwyddiaeth dysgu a medrau, a gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod i fod yn hyblyg wrth gyfeirio gwasanaethau at ble mae'r angen fwyaf a mwyaf dybryd. Er enghraifft, mae gweithwyr ieuencid wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar i weithio gyda phobl ifanc mewn cymuned sy'n gweld cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r awdurdod wedi datblygu a chefnogi ystod o ymagweddau gwerthfawr at fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr, Fan Cadfield a'r Big Fresh Catering Company.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos ag ysgolion, gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r sector gwirfoddol i ddatblygu mentrau bro sydd wedi'u hanelu at wella lles a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Mae'r rhain yn cynnwys mannau cynnes, gerddi i annog y gymuned i dyfu eu bwyd eu hunain, ac ymagweddau at fynd i'r afael ag ynysigwydd cymdeithasol.

Mae'r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu ei waith yng Nghymuned Ddysgu Pencoedtre (PLC). Mae hyn yn cynnwys ysgol uwchradd a 5 ysgol gynradd yn ardal yr awdurdod sydd â'r lefelau tlodi uchaf. Mae ganddo weledigaeth i greu cymuned gynhwysol, ddiogel a galluogol lle mae perthnasoedd yn ffynnu. Mae'r rheolwr ysgolion bro, ymgysylltwyr â theuluoedd ac uwch arweinwyr yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn yr ysgolion cynradd i wireddu'r weledigaeth hon ar gyfer y cymunedau lleol. Mae hyn yn helpu ymgysylltu â theuluoedd a gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd partner. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu gwaith yn yr ysgol uwchradd.

Mae gwasanaethau fel Teuluoedd yn Gyntaf wedi'u cydleoli yng Nghymuned Ddysgu Pencoedtre (PLC), yn helpu teuluoedd i fanteisio ar gymorth a chynngor i wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywydau. Yn ychwanegol, mae PLC wedi cyflogi seicolegydd addysg i ddarparu cymorth amserol a buddiol. Mae pob ysgol gynradd yn PLC yn cynnwys cyfleusterau sefydledig i helpu datblygu perthnasoedd cymunedol a chefnogi eu teuluoedd. Er enghraifft, mae pob ysgol yn cynnal siop a chaffi 'tal fel y gallwch chi' ar gyfer pobl leol. Mae cydleoli staff Dechrau'n Deg<sup>1</sup> mewn ysgolion yn cynyddu hygrychedd ac ymatebolrwydd gwasanaethau ar gyfer teuluoedd. Yn ychwanegol, mae Dechrau'n Deg, ymgysylltwyr â theuluoedd a'r rheolwr ysgolion bro yn gweithio'n agos i sicrhau bod rhaglenni cyn-ysgol yn cynorthwyo'r plant ieuengaf i symud ymlaen i ysgolion cynradd.

Mae nodi, monitro a darparu'n gynnar i gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) yn gryfder. Mae swyddogion ac ystod helaeth o bartneriaid yn gweithio'n ddygn gydag ysgolion i ddatblygu strategaethau teilwredig ar gyfer disgyblion i sicrhau eu bod yn aros mewn addysg neu gyflogaeth ar ôl gadael yr ysgol. Ceir system brysbennu hynod effeithiol i

---

<sup>1</sup> Mae Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd sydd â phlant o dan 4 blwydd oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys gofal plant rhan-amser ar gyfer plant 2 i 3 blwydd oed; gwasanaeth Ymweliadau Iechyd estynedig; cyfle i fanteisio ar raglenni rhianta; a chymorth i blant ddysgu siarad a chyfathrebu.

nodi a darparu cymorth ar y lefel briodol ar gyfer unigolion. Mae ymagwedd gadarn yr awdurdod at fynd i'r afael ag ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau nifer y bobl NACH.

### **Cameo: Ymagwedd gydweithredol at gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NACH ac yn ddigartref**

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno prosiect 'Ymdrechu' (Strive), sy'n gweithio gyda phobl ifanc 11-16 oed y nodwyd eu bod mewn perygl o fod yn bobl NACH neu'n ddigartref. Mae staff prosiect yn gweithio ar sail un i un gyda nifer o ddysgwyr, gan ddefnyddio cynllun personoledig i ddatblygu strategaethau ar gyfer pob dysgwr. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i gynorthwyo dysgwyr â'u presenoldeb a'u hymddygiad, darparu pecynnau lles, adnoddau urddas mislif a chynhyrchion hylendid sylfaenol, a chysylltu â phrosiectau ehangach yn gysylltiedig â rhwymau teuluol, cyfryngu a sgysiau teuluol.

At ei gilydd, mae effaith gwaith yr awdurdod i leihau effaith tlodi ar les plant a phobl ifanc yn gryf. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r ffocws penodol ar wella dysgu, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir i greu 'cymunedau cryf â dyfodol disglair', sy'n cael ei deall yn dda gan swyddogion. Mae'r uchelgais hon ar y cyd, gyda phwyslais ar weithio ar draws cyfarwyddiaethau a chynllunio integredig, wedi creu diwylliant cryf o gydweithio a synnwyr o ddiben. Mae hyn yn gryfder yn yr awdurdod lleol ac yn sicrhau bod pawb yn rhoi blaenoriaeth uchel i les. Mae uwch arweinwyr yn blaenoriaethu addysg ac mae'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi gwaith ei ysgolion yn fawr. Er bod ffocws cryf ar gefnogi lles dysgwyr yng nghynlluniau a phrosesau corfforaethol yr awdurdod lleol, mae'r blaenoriaethau ar gyfer safonau a chynnydd dysgwyr yn llai clir.

Mae gwerthoedd craidd yr awdurdod lleol yn treiddio trwy'r penderfyniadau a wna, ei bolisiau a'i weithdrefnau, ac yn eu hategu. Rhoddir blaenoriaeth uchel i degwch, ac fe gaiff gwaith arweinwyr ac aelodau etholedig ei yrru gan ddiben moesol cryf. Mae'r holl ddogfennau a chynlluniau strategol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr awdurdod lleol yn drylwyr ac yn cael ei integreiddio ar draws ei waith. Caiff amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu plethu'n bwrpasol trwy'r cynllun corfforaethol.

### **Cameo: Hyrwyddo gwrth-hiliaeth yn Y Fro**

Mae arweinwyr a swyddogion yn Y Fro wedi ymrwymo i greu diwylliant gwrth-hiliol ar draws eu hawdurdod lleol. Mae'r awdurdod wedi darparu ystod o ddysgu proffesiynol ar gyfer ei staff a'i ysgolion am sut i hyrwyddo ymagwedd wrth-hiliol. Mae hyn yn cynnwys rhannu ymchwil berthnasol ac amlygu'r arferion mwyaf effeithiol i fod yn wrth-hiliol.

Mae swyddogion wedi sefydlu prosiect ymchwil weithredu gwrth-hiliol i helpu arweinwyr a staff ysgolion i ystyried sut orau i hyrwyddo'r diwylliant hwn a sicrhau bod eu cwricwlwm yn gynhwysol a gwrth-hiliol. Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn wedi sefydlu ymagweddau buddiol at gynllunio ar gyfer cwricwlwm sy'n hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth, yn ogystal ag addysgu cymuned yr ysgol am sut i fod yn wrth-hiliol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo a modelu ymddygiadau proffesiynol yn dda. Mae'r Cyfarwyddwr Dysgu a Medrau yn darparu arweinyddiaeth bwyllog a sicr i'w thimau. Ceir perthnasoedd gweithio cadarnhaol ar draws y gyfarwyddiaeth, ac amgylchedd cefnogol sy'n caniatáu ar gyfer her broffesiynol. Ar draws yr awdurdod, ceir disgwyliadau uchel o arweinwyr ar bob lefel, a phrosesau clir ac a rennir yn dda ar gyfer rheoli gwaith pob maes gwasanaeth. Mae'r awdurdod lleol wedi mireinio'i drefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn ddiweddar fel eu bod yn alinio'n agos â'i werthoedd craidd. Mae hyn yn meithrin ymddygiadau ac agweddau proffesiynol cadarnhaol ac yn sicrhau bod pob un o'r staff yn ystyried sut mae eu gwaith yn cefnogi gweledigaeth yr awdurdod. Mae cyfathrebu rhwng arweinwyr, swyddogion a rhanddeiliaid yn effeithiol, ac mae hyn yn hwyluso rhannu nodau allweddol ymhellach. Mae penaethiaid yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd ymddiriedus a thryloyw sydd ganddynt â'r rhan fwyaf o swyddogion.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda chyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill i archwilio materion cyd-destunol lleol, datblygu cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwasanaeth a nodi unrhyw rwystrau posibl rhag gwella. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r amcanion lles yn y cynllun corfforaethol yn effeithiol.

Mae aelodau etholedig yn craffu ar waith y gyfarwyddiaeth dysgu a medrau yn briodol. Mae arweinwyr a swyddogion yn sicrhau bod y pwyllgor craffu yn cael digon o wybodaeth i alluogi ei aelodau i herio'n briodol. Ceir ystod o gyfleoedd i aelodau etholedig ddatblygu eu dealltwriaeth o waith darparwyr addysg ac anghenion pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion a gwahodd penaethiaid i bwyllgor craffu. Mae aelodau o'r Cyngor leuenctid hefyd yn cyfrannu at graffu, ac aelodau etholedig yn rhoi ystyriaeth dda i'w barn. Nid oes ofn ar arweinwyr fynd i'r afael â materion yn rhagweithiol er budd plant a phobl ifanc yn Y Fro, er enghraifft datblygu 'Pecyn Cymorth Trawsryweddol' i gefnogi darparwyr addysg, neu drwy drafod ymagweddau ysgolion at addysgu gwerthoedd a moeseg crefydd.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwelliant parhaus a cheir pwyslais cryf ar hunanfyfyrion, sy'n llywio gwaith arweinwyr a swyddogion ar bob lefel. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu ei ymagweddau at hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella dros gyfnod i wneud y rhain yn systematig a chynhwysfawr, a sicrhau bod y gwaith hwn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r awdurdod. O ganlyniad, mae gweledigaeth a gwerthoedd yr awdurdod lleol yn treiddio trwy waith yr holl wasanaethau a cheir

ymagwedd gyson a chorfforaethol ar draws timau. Mae prosesau sicrhau ansawdd buddiol ar draws cyfarwyddiaethau sy'n darparu her addas, cymedroli gwerthfawr ac yn rhannu ymagweddau yn effeithiol.

Ceir prosesau addas i gasglu gwybodaeth yn erbyn blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i goladu gwybodaeth ar draws meysydd gwasanaeth, fel y Matrics Gwella Lles, sy'n galluogi swyddogion i gefnogi ysgolion mewn ffordd fwy cyfannol. Mae timau'n gweithio'n dda i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg ac yn mynd i'r afael â nhw mewn modd amserol. Fodd bynnag, ceir amrywiad yn ansawdd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar draws y gyfarwyddiaeth. Ni chaiff ychydig o agweddau ar waith gwella eu cofnodi'n ddigon da ac nid ydynt bob amser yn cael eu cofnodi yn y cynlluniau gwelliant ffurfiol. Mae hyn yn golygu nad yw swyddogion bob amser yn ystyried effaith y gwaith hwn yn ddigon da.

Er bod prosesau hunanwerthuso a gwella yn sicrhau bod arweinwyr a swyddogion yn ystyried nodau trosfwaol yr awdurdod, ni chaiff rhai materion pwysig eu nodi'n ddigon manwl, yn enwedig o ran addysgu a dysgu. Ni chaiff llwyddiant ei nodi'n ddigon penodol, sy'n golygu ei bod yn anodd mesur cynnydd a dwyn arweinwyr i gyfrif yn gadarn.

Mae'r awdurdod lleol yn meithrin amgylchedd lle caiff dysgu proffesiynol ei werthfawrogi'n fawr. Ceir llawer o gyfleoedd i staff ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth broffesiynol yn bwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth i staff ennill cymwysterau proffesiynol, cynnal ymholiadau ymchwil a gweithio gyda'i gilydd ar brosiectau i gefnogi gwaith eu timau gwasanaeth. Mae'r caffï dysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu proffesiynol strwythuredig a deialog broffesiynol anffurfiol rhwng cymheiriaid. Mae hyn yn annog arloesi, yn helpu staff i wneud cysylltiadau creadigol rhwng meysydd o'u gwaith ac yn cefnogi lles staff.

### **Cameo: Y Caffi Dysgu**

Fel rhan o'i strategaeth i ddarparu dysgu proffesiynol parhaus a theilwredig ar gyfer pob un o'r staff, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu 'Y Caffi Dysgu'. Mae hyn yn darparu ystod eang o gyfleoedd i staff ar bob lefel ymgysylltu â dysgu proffesiynol pwrpasol. Mae hyn yn cynnwys trwy negeseuon e-bost targedig, cyfleoedd i gymryd rhan mewn trafodaethau am ddysgu proffesiynol ac ymchwil, ac ystod o gymorth wyneb yn wyneb i wella arfer. Mae'r Caffi Dysgu wedi helpu ystod eang o swyddogion i gydweithio ar wahanol agweddau ar eu gwaith, wedi galluogi rhannu arfer effeithiol ac wedi hyrwyddo diwylliant lle mae swyddogion yn cymryd cyfrifoldeb am yrru eu dysgu eu hunain.

Mae'r awdurdod lleol yn dechrau cyflwyno'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae penodi swyddog arweiniol CSCA yn ddiweddar wedi cynyddu capasiti'r awdurdod lleol i gyflawni yn unol â'r deilliannau hyn. Mae wedi nodi camau gweithredu addas i wella darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cynyddu argaeledd y lleoedd mewn lleoliadau addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn raddol. Mae'r awdurdod wedi cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ac wedi cyflwyno canolfan Gymraeg ar gyfer addysg sydd wedi gwella darpariaeth ar gyfer plant oedran cynradd. Megis dechrau gwneud cynnydd y mae'r

awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â heriau mewn gwella darpariaeth Gymraeg ar draws ei ysgolion.

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelu plant a phobl ifanc. Ceir gwaith partneriaeth cryf a buddiol rhwng gwahanol gyfarwyddiaethau i gefnogi'r gwaith hwn. Mae gwaith i sicrhau recriwtio mwy diogel mewn ysgolion ac ar gyfer staff a gyflogir yn ganolog ac aelodau etholedig yn drylwyr.

Mae tîm diogelu addysg yr awdurdod lleol yn darparu cymorth o ansawdd uchel ar gyfer ysgolion a darpariaethau eraill. Mae swyddogion yn herio ysgolion yn briodol ynglŷn â'u harchwiliadau diogelu blynyddol ac yn darparu cymorth a hyfforddiant pwrpasol, pan fydd angen, i gryfhau arfer. At ei gilydd, mae systemau olrhain data yn drylwyr ac yn rhoi trosolwg cyfoes i swyddogion, er enghraifft, o hyfforddiant diogelu mewn ysgolion ar bob lefel ac achosion o fwlio.

Mae'r awdurdod lleol yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i unigolion diogelu dynodedig (UDD) ysgolion gyfarfod i drafod pryderon ynghylch diogelu a chael hyfforddiant ar faterion pwysig. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fuddiol iawn, ym marn ysgolion.

Un o'r cryfderau yng ngwaith yr awdurdod yw'r ffordd y mae swyddogion yn ymgysylltu â phobl ifanc i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Er enghraifft, cyfrannodd grŵp o bobl ifanc at yr arweiniad ar fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Mae hyn yn helpu ysgolion i gryfhau eu harferion diogelu.

Bu cynnydd o 15.1% yn 2023-2024 yng nghyfanswm gwariant wedi'i gyllidebu fesul disgybl yn ysgolion yr awdurdod, sydd wedi bod yr isaf neu'r isaf ond un yng Nghymru er 2011-2012. Mae hyn yn golygu bod gwariant yr awdurdod yn y safle pumed isaf erbyn hyn. Yn y blynyddoedd diwethaf, wrth osod ei gyllidebau blynyddol, mae'r awdurdod wedi sicrhau mai blaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg a'i gyfradd dirprwyo cyllid i ysgolion oedd yr uchaf ond un ledled Cymru yn 2023-2024. Mae rhaglen cyllid cyfalaf yr awdurdod yn cynnwys cyllid wedi'i gynllunio i roi blaenoriaethau allweddol ar waith o fewn addysg, gan gynnwys ei raglen strategol cymunedau ar gyfer dysgu ac i wneud gwaith adeiladu pwysig mewn ysgolion. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod hefyd wedi ailgyfeirio tanwario corfforaethol i helpu mynd i'r afael â phwysau cyllid yn ystod y flwyddyn ar draws addysg.

O fewn cyd-destun y pwysau cyffredinol ar gyllid yr awdurdod, mae gwasanaethau addysg ac ysgolion yn wynebu heriau ariannol parhaus. Mae'r awdurdod yn datblygu ei ddefnydd o wybodaeth am gostau cymharol ymhellach i wella'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau ariannol i gyflawni ei ddeilliannau. Mae aelodau etholedig yn derbyn adroddiadau monitro cyllideb chwarterol manwl, sy'n nodi'n glir y pwysau yn ystod y flwyddyn ar draws addysg a sefyllfa gyffredinol cyllidebau ysgolion. Mae uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o achosion ac effeithiau'r prif bwysau o ran cyllideb ar draws gwasanaethau addysg canolog, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol a chludebant ysgol yn ogystal ag ysgolion. O ganlyniad, bydd y strategaeth drawsnewid a adnewyddwyd yn ddiweddar ar gyfer yr awdurdod lleol cyfan yn cynnwys ffocws ar addysg ac ysgolion gyda bwriad i sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hirach.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi datblygu ymagweddau arloesol at rai agweddau ar gyflwyno'i wasanaeth addysg, gan gynnwys datblygu cwmni

masnachu awdurdod lleol ar gyfer arlwygo mewn ysgolion (Big Fresh) y defnyddir ei fwyd dros ben i gynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael ag effaith tlodi.

### **Cameo: Big Fresh Catering Company**

Mae'r Big Fresh Catering Company yn fodel busnes arloesol a sefydlwyd fel Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol. Mae Big Fresh wedi gwneud gwaith sylweddol i hyrwyddo bwyta'n iach a helpu mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd. Mae Big Fresh yn aifuddsoddi unrhyw arian dros ben y mae'n ei gynhyrchu yn ôl mewn ysgolion neu'n trefnu bod cyllid ar gael i gefnogi prosiectau cwricwlwm a phrosiectau lles, fel creu clybiau ar ôl yr ysgol neu ardaloedd lles.

Mae ysgolion yn elwa ar y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan y timau addysg canolog, er enghraifft y timau cyllid ysgolion ac adnoddau dynol, sy'n adlewyrchu'r ymagwedd gydweithredol y mae'r awdurdod yn ei fabwysiadu wrth weithio gyda'i ysgolion. Ceir ystod eang o Gytundebau Lefel Gwasanaeth perthnasol, y mae lefel dda o ysgolion yn manteisio arnynt, ac mae'r awdurdod yn adolygu'r rheiny ar y cyd ag ysgolion.

Mae'r aelodaeth o'r fforwm cyllideb ysgolion yn adlewyrchu'r mathau a'r clystyrau o ysgolion ar draws yr awdurdod. Mae cyfarfodydd fforwm yn canolbwyntio ar feysydd pwysig yn ymwneud â chyllido ysgolion, ac mae'r fforwm yn adolygu agweddau ar ei fformiwla gyllido yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ysgolion. Mae arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu tryloyw gan yr awdurdod ac yn teimlo'i fod yn gwrandao arnynt. Mae'r ddeialog ddwyffordd hon wedi sicrhau bod yr awdurdod lleol a'r ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth ddatblygedig o'r cyfyngiadau a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r naill a'r llall. Mae manteision y cyfathrebu hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r fforwm gan fod aelodau'n teimlo'n hyderus yn rhannu gwybodaeth â chydweithwyr ar draws eu clystyrau.

At ei gilydd, cyfanswm balansau ysgolion oedd £893k ar ddiwedd 2019-2020, ac ar ôl hynny, cododd yn gyflym yn ystod pandemig COVID-19 i £12.71 miliwn erbyn diwedd 2021-2022, a oedd yn debyg i'r patrwm ledled Cymru. Ar ddiwedd 2021-2022, nid oedd unrhyw ysgolion o fewn yr awdurdod mewn diffyg ariannol. Fodd bynnag, mae amcanestyniadau'r awdurdod yn dangos y bydd 19 o ysgolion mewn diffyg ariannol erbyn diwedd 2023-2024. O dan ei Gynllun Ariannu Teg ar gyfer Ysgolion, mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion mewn diffyg ariannol ddatblygu cynlluniau adfer i ddychwelyd i sefyllfa gadarnhaol o ran eu cyllideb o fewn pum mlynedd. Fodd bynnag, er gwaethaf cymorth a her yr awdurdod i ysgolion yn ystod cyfnod datblygu'r cynlluniau hynny, gan gynnwys defnyddio data ac adolygu cymheiriaid, mae wedi gwerthuso na fydd bron pob un o'r ysgolion sydd mewn diffyg ariannol ar hyn o bryd yn gallu dychwelyd i sefyllfa gytbwys. Mae hyn yn achosi risg barhaus nodedig i gynaliadwyedd cyllidebau ysgolion unigol.

## Atodiad 1: ASTUDIAETH ACHOS O ARFER ARLOESOL NEU EFFEITHIOL

**Enw'r darpawr:** Dysgu a Sgiliau

**Awdurdod Lleol:** Bro Morgannwg

**Person cyswllt:**

Trevor Baker, Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau  
[tbaker@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:tbaker@valeofglamorgan.gov.uk) Tel: 01446 709118

**Gwefan:** <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/index.aspx>

**Dyddiad yr arolygiad:** Mawrth 2024

**Maes cafodd ei adnabod yn ystod yr arolygiad:**

Gwaith trawsgyfarwyddiaethol ar draws yr ALI

**Pennawd yr astudiaeth achos:**

Effaith gwaith trawsgyfarwyddiaethol ar wasanaethau addysg ym Mro Morgannwg

**Maes arolygu:**

MA2

### Cyd-destun a chefnidir i'r arfer effeithiol neu arloesol

Bu ymgorffori ethos cryf ar gyfer gwaith trawsgyfarwyddiaethol wrth wraidd gwaith yr awdurdod lleol i sbarduno gwelliant ar draws gwasanaethau addysg a sicrhau deilliannau cadarnhaol i'w ddysgwyr.

Darparodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol lwyfan defnyddiol i'r awdurdod lleol roi ffocws cryf ar yr angen i sicrhau bod pob cyfarwyddiaeth yn yr awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i gyflawni ei amcanion llesiant a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. O ganlyniad, gweithiodd arweinwyr yn dda i ddatblygu ymagwedd gydweithredol at gyflawni ei flaenoriaethau gwella ar draws cyfarwyddiaethau, yn hytrach na thrwy seilos gwasanaeth.

I hwyluso gwaith trawsgyfarwyddiaethol llwyddiannus, canolbwyntiodd yr awdurdod lleol ar:

- Godi proffil gwasanaethau addysg a blaenoriaethau ar draws yr awdurdod lleol i flaenoriaethu'r defnydd effeithiol o adnoddau.



- Sicrhau bod staff yn gweithio'n gydweithredol i gefnogi cymunedau'r awdurdod lleol.
- Cryfhau ei weledigaeth gorfforaethol a mynegiad blaenoriaethau gwella addysg trwy bob agwedd ar waith.
- Rhoi lle blaenllaw a chanolog i lesiant yn yr hyn y mae'n ei wneud, gan ganolbwyntio ar grwpiau bregus.
- Datblygu ei arlwy dysgu proffesiynol i ddatblygu setiau medrau staff, fel eu bod yn barod i fynd i'r afael â heriau nawr ac yn y dyfodol.
- Gwella her 'cyfeillion beirniadol' ar draws pob cyfarwyddiaeth i hyrwyddo dysgu ar y cyd a sbarduno trafodaethau yn ymwneud â gwella.

### **Disgrifiad o natur y strategaeth neu'r gweithgaredd**

Daeth gwaith trawsgyfarwyddiaethol yn un o gryfderau allweddol yr ALI o ran sbarduno gwelliant ar draws gwasanaethau addysg drwy:

- Ddatblygu system cynllunio gwelliannau integredig a oedd yn galluogi'r ALI i ddatblygu blaenoriaethau gwella cytûn sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau ei gymunedau a'i ddinasyddion a datblygu diwylliant o gydweithio ar draws cyfarwyddiaethau'r ALI.
- Mae mynegi gweledigaeth gytûn ar gyfer yr ALI, sef 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair', yn rhwymo ei ymdrechion cyfunol i gyflawni nod cyffredin. Mae'r weledigaeth hon yn llifo i amcanion cytûn a blaenoriaethau gwella'r ALI, sy'n cael eu hadlewyrchu mewn un Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB), lle mae'r pwyslais ar waith trawsgyfarwyddiaethol. Caiff y CCB ei lunio ar y cyd yn flynyddol gan uwch arweinwyr (ar draws yr ALI), Aelodau Etholedig ac ag ymgysylltiad helaeth gan staff, dinasyddion, partneriaid ac ysgolion.
- Ymgorffori cyfleoedd ar gyfer her gyfunol fel rhan o broses hunanasesu flynyddol yr ALI. Mae cyfarwyddwyr cymheiriaid ac aelodau etholedig (Cabinet a Chraffu) yn mynychu sesiynau herio gan gymheiriaid i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i herio canfyddiadau a barnau hunanasesu pob cyfarwyddiaeth i sicrhau gonestrwydd, tegwch a chysondeb.
- Datblygu dulliau effeithiol i ddyrannu adnoddau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r CCB trwy'r broses flynyddol o osod cyllideb, gyda chyfraniad cyfunol aelodau etholedig, swyddogion o bob rhan o'r Cyngor a phenaethiaid. O ganlyniad, bu ffocws cryf ar addysg fel blaenoriaeth allweddol, sy'n amlwg wrth i 39% o gyllideb y Cyngor gael ei ddyrannu i ysgolion (~£115m).
- Meithrin gweithio ar y cyd ar draws yr ALI trwy gyfarfodydd rheolaidd ac effeithiol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Briffiau Prif Swyddogion y Bwrdd Mewnwelediad. Mae'r rhain yn darparu dulliau i swyddogion o bob un o'r cyfarwyddiaethau ddod at ei gilydd i wneud penderfyniadau ar y cyd, datblygu safbwyntiau newydd ac mae'n cynnig cyfleoedd i ennyn cefnogaeth ar draws yr ALI i ddatrys problemau a datblygu gwasanaethau sy'n arwain at fanteision cadarnhaol i'n dysgwyr, staff a chymunedau.

- Mae ymgorffori 'cymuned ddysgu gref' gyda diwylliant o gydweithio mewn dysgu wedi'i ysgogi gan [Lyfr Diwylliant](#) yr ALI. Mae'r ALI wedi defnyddio ei blatfform dysgu iDev a'i Gaffi Dysgu (rhwydwaith datblygiad proffesiynol mewnol) yn effeithiol i hyrwyddo ac ymgysylltu â dysgu a datblygu. Bu'r Caffi Dysgu yn ddull allweddol i ymgysylltu â staff a gwella datblygiad proffesiynol i gydweithwyr ddysgu oddi wrth ei gilydd, rhannu arfer dda a mynegi syniadau i fynd i'r afael â heriau allweddol y mae'r ALI yn eu hwynebu.
- Blaenoriaethu lles fel maes ffocws craidd i alluogi cydweithio effeithiol yn ein cymunedau. Mae'r gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau wedi arwain y ffordd o ran datblygu Ymagwedd Ysgol Gyfan at les, fel bod hyn wedi'i ymgorffori ar draws ysgolion a gwasanaethau canolog yr ALI.
- Creu cyfleoedd pwrpasol i gyfranogi a chydweithio ar draws cyfarwyddiaethau, gyda swyddogion arweiniol y tu mewn a'r tu allan i wasanaethau addysg, i fanteisio ar fedrau, arbenigedd a safbwyntiau ar draws y Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflwyno mentrau allweddol, fel Ysgolion Bro, y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP)/Bwyd a Hwyl, mentrau tlodi/costau byw fel Pantrioedd Talu fel ry'ch chi'n Teimlo/[Big Bocs Bwyd](#), [Ymdrechu/Atal NEET](#), datblygu'r [Pecyn Cymorth Cynhwysiant Trawsryweddol](#) a chyflwyno'r [Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy](#).
- Canolbwyntio ar ddatblygu ysgolion bro a defnyddio dull yn seiliedig ar glwstwr i gydweithredu â chydweithwyr o feysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau corfforaethol a gwasanaethau cymdogaeth i leihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc, fel sydd i'w weld yn y gwaith a wneir yng Nghymuned Ddysgu Pencoedtre.
- Daeth rhaglen drawsnewid gyffredinol yr ALI â medrau/arbenigedd swyddogion o bob cyfarwyddiaeth at ei gilydd i ail-lunio modelau darparu gwasanaeth. Mae *The Big Fresh Catering Company* yn fodel arlwyio arloesol a chynaliadwy a ddeilliodd o'r rhaglen drawsnewid hon, gyda mewnbwn a chyfraniadau gan bob rhan o'r cyngor, a dyma oedd y prif alluogydd yn y broses garlam o gyflwyno'r ddarpariaeth Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd ar draws holl ysgolion cynradd y fro. Mae hefyd wedi defnyddio ei wargedion i ailfuddsoddi mewn ysgolion, sydd wedi cael effaith amlwg.
- Gwneud y defnydd gorau posibl o gyllid grant i gefnogi dysgwyr difreintiedig. Er enghraifft, dirprwyo grantiau i gefnogi gwaith Rheolwyr Ysgolion Bro a Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yng Nghymuned Ddysgu Pencoedtre, dosbarthu cyfran elw *The Big Fresh Catering Company* i ysgolion a chydweithio â'r Tîm Byw'n lach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon/corfforol wedi'u targedu yng nghymunedau mwyaf difreintiedig a lleiaf egnïol yr ALI.

### **Pa effaith y mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar ddarpariaeth a safonau dysgwyr?**

- Mae mabwysiadu Cynllun Cyflawni Blynyddol cyfrannol wedi sicrhau cydgyfrifoldeb am flaenoriaethau addysg yr ALI ac wedi hyrwyddo diwylliant o

gydweithio i fynd i'r afael â heriau hollbwysig yr ALI. Mae hyn yn golygu bod uwch arweinwyr o bob cyfarwyddiaeth yn deall pwysigrwydd blaenoriaethu addysg.

- Mae dull herio cymheiriaid blynyddol wedi cael effaith gadarnhaol ar berthnasoedd trawsgyfarwyddiaethol a chyfleoedd i feithrin mwy o gydweithio i integreiddio gwasanaethau'n effeithiol. Mae hyn hefyd wedi helpu i wella ansawdd cynllunio gwelliant ac wedi datblygu cydberchnogaeth o gamau gweithredu i wella bywydau pobl ifanc yn y Fro.
- Mae ymagwedd gydweithredol yr ALI at ddysgu proffesiynol wedi gwella setiau medrau unigol, ysgogi arloesedd a meithrin diwylliant o welliant parhaus.
- Mae ymgysylltiad rhagorol gan ysgolion yn yr Ymagwedd Ysgol Gyfan at lechyd Meddwl a Lles yn dangos bod bron pob ohonynt yn cyfrannu at gynllunio gwelliant i lywio cynlluniau datblygu ysgolion.
- Mae blaenoriaethau clir a chytûn ar gyfer dysgwyr difreintiedig a dysgwyr bregus, ynghyd â chyllid cyfatebol wedi'i ddyrannu ar gyfer blaenoriaethau gwella addysg. Bu hyn yn amlwg trwy fuddsoddi mewn sawl darpariaeth ADY newydd i fodloni'r cynnydd yn y galw.
- Mae *The Big Fresh Catering Company* yn arbed cyllid blynyddol o tua £400,000 y flwyddyn i'r cyngor ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles dysgwyr. Caiff yr holl wargedion eu hailfuddsoddi mewn ysgolion, sydd yn fwyaf diweddar wedi creu £200,000 ychwanegol, gan helpu i leihau diffygion mewn cyllidebau ar draws ysgolion a/neu eu helpu i brynu offer ysgol.
- Mae gwaith wedi'i dargedu yng Nghymuned Ddysgu Pencoedtre yn defnyddio Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb mewn ysgolion cynradd yn y clwstwr (Cadoxton, Colcot, Holton, Jenner ac Oakfield).
- Mae'r ffocws ar ymgysylltu â theuluoedd i gynorthwyo i ddatblygu medrau llythrennedd wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu ar draws yr ysgolion hyn ac wedi cyfrannu at wella ansawdd ysgrifennu disgyblion cynradd.
- Mae effaith ymdrechion ar y cyd trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac, yn ehangach, yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor, wedi cyfrannu'n gadarnhaol at gadw dysgwyr Blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg a lefelau pontio uchel rhwng grwpiau blwyddyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer 2023/24, trosglwyddodd 95% o ddysgwyr o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd Blwyddyn 6.
- Darparodd gwaith targedig gan y Tîm Byw'n lach yn 2023/24 yng nghymunedau mwyaf difreintiedig a lleiaf egniol yr ALI 134 o sesiynau chwaraeon/ymarfer corff am ddim, a effeithiodd ar 699 o blant. Roedd 87% o'r cyfranogwyr yn teimlo mwy o gymhelliant ac yn fwy hyderus i gymryd rhan mewn gweithgareddau a nododd 60% yr hoffent ymuno â chlybiau lleol a pharhau â'u gweithgareddau.
- Mae ffigurau NEET yr ALI yn gymharol isel o hyd o gymharu ag ALLau eraill yng Nghymru. Yn ystod 2022/23 (carfan ymadawyr 2022), daeth 2.46% o ddysgwyr Blwyddyn 13, 0.24% (Blwyddyn 12) ac 1.49% o ddysgwyr Blwyddyn 11 yn

NEET, yr oedd y ddau ohonynt yn well na ffigurau Cymru gyfan. Roedd hyn yn golygu bod yr ALI yn y 9fed safle yng Nghymru (Blwyddyn 13), y 4ydd safle yng Nghymru (Blwyddyn 12) a'r 5ed safle yng Nghymru (Blwyddyn 11) yn y drefn honno.

### **Sut ydych chi wedi mynd ati i rannu eich arfer dda?**

Mae'r ALI wedi defnyddio ystod o ddulliau a rhwydweithiau yn effeithiol i rannu ei arfer dda ar draws ei dimau, cyfarwyddiaethau ac, yn ehangach, gydag ALLau eraill a phartneriaid allanol. Mae wedi gwneud hyn drwy:

- rannu negeseuon cyfarwyddiaethau'n rheolaidd ar draws y Cyngor drwy grynodedau wythnosol y Prif Weithredwr, gan roi sylw i arfer nodedig ar draws gwasanaethau addysg a chyfarwyddiaethau eraill. Caiff y negeseuon allweddol hyn eu rhannu'n aml mewn cyfarfodydd penaethiaid ysgolion, hefyd;
- defnyddio'r Bwrdd Mewnwelediad, Briffiau'r Prif Swyddogion, diwrnodau'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, a'r Caffi Dysgu i gefnogi dysgu ar y cyd ac arfer dda rhwng cyfarwyddiaethau i feithrin arloesedd a gwelliant parhaus;
- datblygu a rhannu astudiaethau achos i amlygu meysydd lle mae arfer effeithiol ac arloesol ar waith; a
- rhannu arbenigedd a gwybodaeth a digwyddiadau/rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2024